# Cyngor Cymuned Dolwyddelan

Mae'n bleser gan Gyngor Cymuned Dolwyddelan gyhoeddi y cefnogir eu cais mewn egwyddor i Gronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar ran Prosiect Coffáu Mynwent Bryn y Bedd ac fe gaiff y llythyr dyfarnu cyllid grant ei chyflwyno'n fuan. Rydym yn gobeithio bwrw iddi gyda'r gwaith yn y misoedd nesaf. Mae hwn yn gyfle cyffrous dros ben i'n cymuned ac os hoffech chi ragor o wybodaeth ynghylch sut i gymryd rhan, cysylltwch gyda Connie Brewer ar brynybedd_cemeteryproject@btinternet.com .

**Cynllun Cymunedol**

Roedd y Cyngor Cymuned yn llwyddiannus gyda'u cais am gyllid i gydweithio gydag ymgynghorydd er mwyn llunio Cynllun Cymunedol a dogfen weledigaeth. Gyda chymorth preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr i'r ardal, byddai'n fodd o gynnig gweledigaeth ynghylch dyfodol Dolwyddelan ynghyd â chynllun i'w gwblhau er mwyn cyflawni'r nod dros y 5 mlynedd nesaf. Yn yr achos hwn, bydd yr arolwg anghenion tai yn ategu cynllunio yn y dyfodol.

Mae'r Ymgynghorydd eisoes wedi cychwyn arni gyda'r gwaith ar y cyd ag aelodau'r cyngor cymuned. Hyd yma maen nhw wedi cynnal taith gerdded o amgylch y pentref ac wedi sgwrsio gyda phreswylwyr er mwyn derbyn eu barn nhw. Bydd cyfarfodydd pellach yn parhau ac fe gaiff cyfarfodydd eu cynnal yn y pentref maes o law er mwyn i breswylwyr / busnesau ac ati rannu eu meddyliau a'u syniadau i ategu'r gwaith gweledigaeth gan edrych tua'r dyfodol.

**Arolwg Anghenion Tai**

Cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb yn y pentref yn ddiweddar a bu iddo adnabod bod preswylwyr yn bryderus ynghylch y nifer o dai cyfyngedig i bobl ifanc. I'r perwyl hwn, mae Cymdeithas Dai Grŵp Cynefin, ar y cyd â Pharc Cenedlaethol Eryri a'r Cyngor Cymuned yn bwriadu cynnal Arolwg Anghenion Tai. Caiff holiaduron eu hanfon i bob cartref yn yr ardal LL25 gan y Post Brenhinol.

Bydd swyddogion Grŵp Cynefin a swyddog Parc Cenedlaethol Eryri yn bresennol mewn sesiwn galw heibio yn y Pafiliwn rhwng 4yp a 6.30yh ar Fawrth y 19eg er mwyn ateb unrhyw ymholiadau gan y preswylwyr neu eu helpu i gwblhau'r holiadur.

Os caiff angen ei adnabod, yna bydd yn rhaid i Grŵp Cynefin ddwyn i ystyriaeth adeiladu tai fforddiadwy yn y pentref a cheisio cyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae tir, sy'n berchen i Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi'i nodi ar Gynllun Datblygu Lleol Eryri ar gyfer hyd at 7 annedd ger y safle tai presennol yng Nglan Gors.